



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

---

## Canllawiau statudol yn ymwneud â chynlluniau ardal o dan adran 14A

Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)


Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)





**OGL**

ISBN digidol 978-1-4734-9339-1  
© Hawfaint y Goron 2017  
WG31479



## Rhagair

1. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”). Daeth Deddf 2014 i effaith ar 6 Ebrill 2016.
2. Mae adran 166 o Ddeddf 2014 yn darparu ar gyfer sefydlu trefniadau partneriaeth ffurfiol rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (BILI). Diben y darpariaethau ar gyfer trefniadau partneriaeth yw gwella canlyniadau a llesiant pobl, yn ogystal â gwella effeithiolrwydd y modd y darperir gwasanaethau.
3. Dylid darllen y canllawiau statudol hyn ochr yn ochr â chanllawiau statudol Rhan 9 ar drefniadau partneriaeth, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015. Maent ar gael yn:

<http://llyw.cymru/docs/dhss/publications/151218part9cy.pdf>

4. Mae Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) hefyd yn berthnasol, ac yn benodol Penodau 2 A a B sy'n ymdrin â'r gofyniad ar awdurdodau lleol a BILI i gynnal asesiad ar y cyd o'r boblogaeth a ffurfio trefniant partneriaeth at ddibenion cynnal yr asesiad hwnnw. Cyhoeddwyd y Cod hwn ym mis Rhagfyr 2015 ac mae ar gael yn:

<http://llyw.cymru/docs/dhss/publications/151218part2cy.pdf>

5. Cyfeirir at “gynlluniau ardal ar y cyd” trwy gydol y canllawiau hyn. Dylai'r BILI a'r awdurdodau lleol o fewn ardal y BILI hwnnw baratoi'r cynlluniau hyn ar y cyd dan gyfarwyddyd y byrddau partneriaeth rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau dull gweithio cyson, o baratoi'r asesiad ar y cyd o'r boblogaeth i baratoi'r cynlluniau ardal ar y cyd.

## Cefndir deddfwriaethol

6. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (“Deddf 2015”) yn gosod adran 14A i mewn i Ddeddf 2014. Mae'n ofynnol o dan yr adran hon i awdurdodau lleol a BILI baratoi a chyhoeddi cynllun eu hunain (y cynllun ardal) gan nodi amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y maen nhw'n bwriadu eu darparu, neu'n trefnu iddynt gael eu darparu, mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol gan adran 14 o Ddeddf 2014. Caiff awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi cynnal asesiad ar y cyd gyda'i gilydd o dan adran 14(1) baratoi a chyhoeddi cynllun ardal ar y cyd (a elwir yn gynllun ardal ar y cyd)
7. Diben y canllawiau statudol hyn yw cefnogi cyflwyniad:
  - gofynion Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 (“y rheoliadau cynllunio ardal”) sy'n nodi manylion penodol yn ymwneud â chyflwyno'r cynlluniau ardal sy'n ofynnol gan adran 14A o Ddeddf 2014 ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau ardal ar y cyd.
  - Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) (Cymru) 2017 (“rheoliadau 2017”) sy'n ychwanegu'r adran newydd, 14A swyddogaethau cynllunio, i'r rhestr o swyddogaethau BILI y mae'n ofynnol iddynt gael eu cyflawni gan

drefniadau partneriaeth dan gyfarwyddyd byrddau partneriaeth rhanbarthol. (Mae'r swyddogaethau cynllunio hynny eisoes wedi'u cynnwys yn rhan o swyddogaethau awdurdodau lleol y mae'n ofynnol iddynt gael eu cyflawni gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol o ganlyniad i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("rheoliadau partneriaeth 2015"))

8. Bydd canllawiau statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth yn parhau i fod ar waith. Atodiad i'r canllawiau hynny yw'r ddogfen hon.

### Cyflwyniad

9. Mae Pennod 2b o God Ymarfer Rhan 2 yn nodi'r gofyniad ar BILI a'r awdurdodau lleol yn ardal y BILI hwnnw i ffurfio trefniadau partneriaeth er mwyn cynnal yr asesiadau o'r boblogaeth. Bydd hyn yn caniatáu i adroddiad cyfunol ar yr asesiad o'r boblogaeth gael ei lunio. Mae'n rhaid cynhyrchu'r asesiadau o'r boblogaeth cyntaf erbyn mis Ebrill 2017.
10. Pan fo adroddiad ar y cyd ar yr asesiad o'r boblogaeth wedi'i lunio, dylai awdurdodau lleol a BILI lunio cynllun ardal ar y cyd. Mae'n rhaid i'r cynlluniau ardal ar y cyd hyn ddarparu disgrifiad o amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y maen nhw'n bwriadu eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr a nodwyd yn yr adroddiadau cyfunol ar yr asesiad o'r boblogaeth.
11. Mae'n rhaid i gynlluniau ardal ar y cyd ganolbwyntio ar y gwasanaethau integredig a gynlluniwyd mewn ymateb i bob un o'r themâu craidd a nodwyd yn yr asesiad o'r boblogaeth. Yn rhan o hyn, mae'n rhaid i gynlluniau ardal ar y cyd gynnwys:
  - y camau y bydd partneriaid yn eu cymryd o ran y meysydd â blaenoriaeth i'w hintegreiddio ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol;
  - yr adegau y bydd cronfeydd cyfun yn cael eu defnyddio mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a manylion y rhain;
  - sut y bydd gwasanaethau yn cael eu caffael neu sut y trefnir eu darparu, gan gynnwys drwy fodelau cyflenwi eraill;
  - manylion y gwasanaethau ataliol a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu;
  - y camau sy'n cael eu cymryd o ran darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth;
  - y camau gofynnol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
12. Mae'n rhaid cyhoeddi'r cynlluniau ardal cyntaf erbyn 1 Ebrill 2018.

### *Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol*

13. Mae'n rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod partneriaid awdurdod lleol a'r BILI yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a rhoi'r cynlluniau ardal ar y cyd ar waith.
14. Mae Pennod 2b o God Ymarfer Rhan 2 yn annog llunio adroddiadau cyfunol ar yr asesiadau o'r boblogaeth ar gyfer yr ardaloedd bwrdd partneriaeth rhanbarthol a ganlyn:

- **Gwent** – trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- **Gogledd Cymru** – trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- **Caerdydd a'r Fro** – trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg
- **Bae'r Gorllewin** – trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- **Cwm Taf** – trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- **Gorllewin Cymru** – trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion
- **Powys** – trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys

15. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i wella'r canlyniadau i bobl yn eu hardaloedd. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen iddynt sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

#### Llunio cynlluniau ardal

16. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a BILI ffurfio partneriaethau er mwyn cyflawni'r asesiadau o'r boblogaeth sy'n ofynnol gan adran 14 o Ddeddf 2014. Dylai'r cynlluniau ardal y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a BILI eu paratoi o dan adran 14A hefyd gael eu paratoi ar y cyd. Bydd datblygu cynllun ardal ar y cyd yn creu cysondeb â'r broses gyfunol o asesu'r boblogaeth ac yn cyfrannu'n sylweddol at y nod o gyflwyno gwasanaethau gofal a chymorth integredig a chynaliadwy. Bydd hefyd yn galluogi partneriaid i gyflawni'r ddyletswydd dan adran 14A(2)(f) yn Neddf 2014, o ran nodi manylion unrhyw beth y maen nhw'n cynnig ei wneud ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth.

17. Mae'r rheoliadau cynllunio ardal hefyd yn nodi cyfres o ofynion sy'n ymwneud â:

- (a) nodi pryd y bydd cynllun yn cael ei gyhoeddi;
- (b) adolygu cynllun;
- (c) ymgysylltu â phobl a chyrrff eraill wrth baratoi cynllun;
- (d) monitro a gwerthuso gwasanaethau a chymorth eraill a nodir mewn cynllun.

Mae'r holl ofynion hyn yn berthnasol i gynlluniau ardal ar y cyd.

18. Yn yr un modd â'r asesiadau o'r boblogaeth, dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd fod yn gryno a bod wedi eu drafftio gan ddefnyddio iaith syml fel y gall aelodau o'r cyhoedd eu hystyried. Bydd hyn yn sicrhau y gall pobl weld pa wasanaethau sy'n mynd i gael eu darparu gan awdurdodau lleol a BILI o ran eu hanghenion gofal a chymorth. Ni ddylai

cynlluniau ardal ar y cyd fod yn fwy na 130 o dudalennau, ond ceir llunio atodiadau ychwanegol ar wahân os oes angen.

### Ymgysylltu â dinasyddion

19. Mae Adran 16 (1)(c) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol hybu cyfranogiad y personau hynny y mae'r gwasanaethau gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol yn cael eu darparu ar eu cyfer yn y gwaith o gynllunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno. Yn unol â'r broses ar gyfer cynnal asesiadau o'r boblogaeth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a BILI sicrhau felly, wrth baratoi'r cynlluniau ardal ar y cyd, eu bod yn cymryd camau rhesymol a sefydlu gweithdrefn i ymgysylltu â:
- (a) phobl yn yr ardal, gan gynnwys plant sydd ag anghenion gofal a chymorth neu a allai fod â'r anghenion hyn;
  - (b) pobl yn yr ardal â chyfrifoldeb rhieni dros blant ag anghenion gofal a chymorth neu blant a allai fod â'r anghenion hyn;
  - (c) gofaluwr sydd ag anghenion cymorth neu a allai fod â'r anghenion hyn.
20. Wrth baratoi cynllun ardal ar y cyd, nid oes angen ymgysylltu â dinasyddion i'r fath raddau ag y gwnaethpwyd wrth gynnal yr asesiad o'r boblogaeth.
21. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr egwyddorion a'r dulliau o sicrhau cyfranogiad pobl, gan gynnwys egwyddorion cyd-gynhyrchu, yng Nghod Ymarfer Rhan 2, yn enwedig ym Mhennod 4 - Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

### Ymgysylltu â sefydliadau preifat a'r trydydd sector a chyrrff cyhoeddus

22. Wrth baratoi cynllun ardal ar y cyd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a BILI lleol ymgysylltu ag unrhyw gorff y maen nhw'n credu sy'n gysylltiedig â, neu sydd â buddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i boblogaeth yr ardal y mae'r cynllun ardal yn berthnasol iddi. Gallai hyn gynnwys sefydliadau'r sector preifat neu'r trydydd sector neu gyrrff cyhoeddus, ar lefel genedlaethol neu leol.

### Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

23. Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cynnwys y datganiad llesiant, sy'n nodi'r canlyniadau llesiant cenedlaethol y dylai pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofaluwr y mae arnynt angen cymorth eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon. Mae hefyd yn cynnwys dangosyddion canlyniad cenedlaethol i fesur a yw llesiant yn cael ei gyflawni. Wrth gynllunio amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen, dylai awdurdodau lleol a BILI sicrhau bod cynlluniau ardal ar y cyd yn disgrifio lefel ac amrywiaeth y gwasanaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni llesiant yn unol â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Gellir cael mwy o wybodaeth am y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn:

<http://lyw.cymru/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>

### Cynnwys a chyflwyniad cynlluniau ardal ar y cyd

24. Mae'n rhaid i bob adroddiad ar asesiadau o'r boblogaeth gynnwys themâu craidd penodol sy'n ymdrin â:

- phlant a phobl ifanc;
- pobl hŷn;
- iechyd/anableddau corfforol;
- anabledd dysgu/awtistiaeth;
- iechyd meddwl;
- nam ar y synhwyrâu;
- gofawyr sydd ag angen cymorth;
- trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

25. Dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd nodi'r gwasanaethau arfaethedig gan awdurdodau lleol a BILL mewn ymateb i'r themâu craidd uchod. Bydd gwasanaethau arfaethedig sy'n ymwneud â'r thema graidd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cynnwys yn y strategaethau lleol ar y cyd sy'n ofynnol gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Gellir cyfeirio at y strategaeth honno yn y cynllun ardal ar y cyd.

26. Bydd nodi'r gwasanaethau arfaethedig o fewn y cynllun ardal ar y cyd fesul thema graidd yn sicrhau y gellir eu cymharu'n hawdd â'r anghenion gofal a chymorth a nodir o dan bob thema graidd yn yr adroddiad cyfunol ar yr asesiad o'r boblogaeth. Dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd ganolbwyntio ar sut y bydd partneriaid yn darparu gwasanaethau integredig o ran y themâu craidd hyn trwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol.

27. Mae'n rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol flaenoriaethu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:

- Phobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Gofawyr, gan gynnwys gofawyr ifanc;
- Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig;
- Plant ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch

Mae'n rhaid i gynlluniau ardal ar y cyd nodi sut mae'r gwasanaethau arfaethedig o ran pob thema graidd yn cynorthwyo byrddau partneriaethau rhanbarthol i flaenoriaethu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau yn yr ardaloedd hyn.

28. Dylai cynlluniau ardal gyfeirio at a/neu grynhoi dogfennau cynllunio perthnasol eraill pan fo hynny'n angenrheidiol yn hytrach na dyblygu'r dogfennau hynny.

#### *Cronfeydd cyfun*

29. Mae rheoliadau partneriaeth 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff partneriaeth o fewn pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun mewn perthynas â:

- chyflawni eu swyddogaethau o ran llety cartrefi gofal;

- cyflawni eu swyddogaethau o ran cymorth i deuluoedd

30. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyrff partneriaeth sy'n penderfynu gweithredu ar y cyd i ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad o'r boblogaeth ystyried a yw'n briodol i sefydlu a chynnal cronfa gyfun.

31. Dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd nodi pryd mae'r awdurdodau lleol a'r BILI yn bwriadu sefydlu unrhyw gronfeydd cyfun, a manylion y cronfeydd hyn, o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth a nodwyd yn yr adroddiad ar yr asesiad o'r boblogaeth.

#### *Gwasanaethau i'w trefnu neu eu caffael*

32. Dylai disgrifiad o'r gwasanaethau y mae awdurdodau lleol a BILI yn bwriadu eu trefnu neu eu caffael o ganlyniad i'r anghenion a nodwyd yn eu hasesiad o'r boblogaeth fod yn nodweddiadol bwysig o'r cynlluniau ardal ar y cyd. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth eglur o fodolau cyflenwi eraill, megis mentrau cymdeithasol. (Mae Adran 16 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu datblygiad mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector yn eu hardaloedd. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y gofyniad hwn ym Mhennod 4 o God Ymarfer Rhan 2.)

33. Gall cynlluniau ardal ar y cyd hefyd ddefnyddio unrhyw strategaethau comisiynu neu ddatganiadau ar sefyllfa'r farchnad sydd wedi'u datblygu.

34. Dylai cynlluniau ardal ar y cyd, felly, nodi hefyd fanylion y mathau o wasanaethau a fydd yn cael eu trefnu neu eu caffael, heb ddisodli'r broses gaffael ffurfiol. Gellid darparu'r rhain drwy:

- ddarparwyr y sector preifat
- darparwyr y trydydd sector
- modelau cyflenwi eraill

35. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol a BILI yn dymuno cyfeirio hefyd at wasanaethau y nodwyd nad ydynt mwyach yn gallu diwallu'r anghenion gofal a chymorth a ddisgrifiwyd yn eu hasesiad o'r boblogaeth ac a allent, o'r herwydd, gael eu datgomisiynu.

#### *Gwasanaethau Ataliol*

36. Wrth nodi'r mathau o wasanaethau y bwriedir eu darparu, neu eu trefnu, mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a BILI bob amser ystyried yr angen i ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol, fel sy'n ofynnol gan adran 15 o Ddeddf 2014.

37. Mae'n rhaid i bob cynllun ardal ar y cyd nodi'r gwasanaethau ataliol y bwriedir eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth, gan gynnwys y gwasanaethau presennol hynny a fydd yn cael eu cadw. Ceir mwy o arweiniad ar ddarparu dull gweithio ataliol ym mhennod 3 o God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol). Dylid darllen hon ar y cyd â'r canllawiau hyn.

#### *Gofalwyr*



38. Mae'n rhaid asesu faint o ofalwyr sydd yn ardal yr awdurdod lleol sydd angen cymorth fel rhan o'r asesiad o'r boblogaeth. Mae Rheoliad 5(c) o'r rheoliadau cynllunio ardal yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol a BILI gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â gofalwyr yn yr ardal, sydd, neu a allai fod ag anghenion cymorth wrth ddatblygu eu cynlluniau ardal. Dylai'r cyrff partneriaeth sicrhau bod yr ymgysylltu hwn yn cael ei wneud, gan gynnwys trwy sefydliadau gofalwyr.

#### *Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth*

39. Dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd hefyd nodi'r camau penodol sy'n cael eu cymryd gan yr awdurdodau lleol a chyrrff eraill o ran darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, fel sy'n ofynnol gan Adran 17 o Ddeddf 2014. (Mae'n ofynnol o dan yr adran hon i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a chynngor i bobl ynghylch gofal a chymorth, ac yn eu cynorthwyo i gael gafael ar ofal a chymorth.) Ceir mwy o arweiniad ar wybodaeth, cyngor a chymorth yng Nghod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol).

<http://llyw.cymru/docs/dhss/publications/160610frameworkcy.pdf>

#### *Y Gymraeg*

40. Mae'n rhaid i'r adroddiadau ar yr asesiad o'r boblogaeth nodi'r camau y mae'n ofynnol eu cymryd i ddarparu amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y nodwyd ei bod yn angenrheidiol eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd nodi sut bydd amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y nodwyd ei bod yn angenrheidiol eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr adroddiadau ar yr asesiadau o'r boblogaeth yn cael eu darparu'n benodol.

#### *Camau gweithredu ac adnoddau eraill*

41. Mae'n rhaid i'r cynlluniau ardal ar y cyd nodi unrhyw gamau eraill y mae aelodau o'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth.

42. Mae'n rhaid i'r cynllun ardal ar y cyd hefyd nodi'n glir pa adnoddau fydd yn cael eu defnyddio i wneud y pethau a nodwyd yn y cynllun.

#### Trefniadau monitro, gwerthuso ac adolygu

43. Mae'n rhaid i gyrff partneriaeth gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso'r gwasanaethau a chamau gweithredu eraill a nodwyd yn y cynlluniau ardal ar y cyd. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod y camau gweithredu a nodir yn y cynllun ardal ar y cyd yn cael eu gwerthuso o leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol llywodraeth leol. Dylid cynnwys adroddiad o'r adolygiad hwn fel Pennod yn adroddiad blynyddol y Bwrdd.

44. Os cyhoeddir atodiad i'r adroddiad cyfunol ar yr asesiad o'r boblogaeth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol a'r BILI adolygu'r cynllun ardal ar y cyd diweddaraf ac ystyried pa un a ddylid ei ddiwygio ac, os felly, paratoi a chyhoeddi cynllun ardal ar y cyd diwygiedig cyn gynted ag yw'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r atodiad.

## Amserlenni a threfniadau cyhoeddi

45. Mae'n rhaid llunio'r cynllun ardal ar y cyd cyntaf erbyn 1 Ebrill 2018 a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ar adeg ei gyhoeddi. Mae'n rhaid cyhoeddi cynlluniau ardal ar y cyd dilynol o fewn blwyddyn i'r dyddiad y mae'n ofynnol cyhoeddi'r adroddiad cyfunol diweddaraf ar yr asesiad o'r boblogaeth. Os cyhoeddwyd cynllun ardal ar y cyd diwygiedig yn dilyn adolygiad, nid yw hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun ardal ar y cyd arall o fewn yr amserlen hon.
46. Fel a nodwyd yng nghanllaw statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth, mae'n rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol baratoi adroddiad sy'n ystyried i ba raddau y mae amcanion y Bwrdd yn cael eu cyflawni. Mae'n rhaid paratoi a chyflwyno'r adroddiad blynyddol cyntaf erbyn 1 Ebrill 2017. Mae'n rhaid i adroddiadau blynyddol a gaiff eu paratoi ar ôl cynhyrchu'r cynllun ardal ar y cyd ym mis Ebrill 2018 nodi sut y mae'r bwrdd yn rhoi'r cynllun hwnnw ar waith.

## Cysylltiadau â fframweithiau cynllunio eraill

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Y Ddeddf LICD")*

47. Mae Adran 37 o Ddeddf LICD yn ei gwneud yn ofynnol i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o'r sefyllfa o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal ("yr asesiad o lesiant lleol"). Mae'r asesiad o'r boblogaeth yn un o nifer o adolygiadau ac asesiadau statudol y mae'n rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ei ystyried wrth baratoi'r asesiad hwn.
48. Mewn ymateb i'r asesiad o lesiant lleol, mae Adran 39 o Ddeddf LICD yn ei gwneud yn ofynnol i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni ("cynllun llesiant lleol").
49. Bydd cynlluniau llesiant lleol yn nodi sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn bwriadu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal, a dylai cynlluniau ardal ar y cyd ganolbwyntio ar y camau y mae awdurdodau lleol a BILI yn eu cymryd yn eu hardaloedd mewn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth a nodwyd yn yr asesiad ar y cyd o'r boblogaeth.
50. Mae'n rhaid i'r cynlluniau llesiant lleol cyntaf gael eu cyhoeddi dim hwyrach na blwyddyn ar ôl etholiadau arferol Llywodraeth Leol (sydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2017 ar hyn o bryd). Dylai awdurdodau lleol a BILI lleol sicrhau bod y disgrifiad o'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r asesiad ar y cyd o'r boblogaeth o fewn cynlluniau ardal ar y cyd yn cyd-fynd â'r amcanion ar gyfer gwella llesiant yr ardal o fewn cynlluniau llesiant lleol.

### *Cynlluniau Tymor Canolig Integredig*

51. Mae Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i BILI greu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig dros gyfnod dreigl o dair blynedd i nodi sut y bydd yn cyflawni ei ddyletswydd gyllidol gan wella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol

amdanynt ar yr un pryd; a darparu gofal iechyd i bobl o'r fath. Mae'r cynlluniau a drafodir yn y canllawiau hyn yn nodi sut y bydd adnoddau yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â meysydd o anghenion iechyd y boblogaeth a gwella canlyniadau iechyd; gwella ansawdd y gofal; a, sicrhau'r gwerth gorau o adnoddau, gan gynnwys o ran integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

52. Pan fo'n bosibl, dylid cyfeirio at wybodaeth berthnasol o fewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn hytrach na'i dyblygu mewn cynlluniau ardal ar y cyd.